

CAU PEN Y MWDWL: PARATOI CYFROL GYNTAF THOMAS PENNANT, *A TOUR IN WALES* (1778), AR GYFER Y WASG

Gan Ffion Mair Jones

Cyflwyniad

I had heard of your father in various parts of Wales, and that Pennant was wholly indebted to him for his information on many topographical as well as genealogical subjects.¹

Dyma amgyffred canmoliaethus Samuel Rush Meyrick (yn ddiweddarach, Syr; 1783–1848) o John Lloyd, Caerwys, cyfaill ffyddlon Thomas Pennant ar ei *Deithiau* yng Nghymru. Mewn llythyr at Angharad Llwyd, merch Lloyd, ym mis Mai 1822, gofynnodd Rush Meyrick iddi dderbyn copi o'i gyfrol, *The History and Antiquities of the County of Cardigan* (1810), gwaith yr edrychai'n ôl arno gyda dogn o hunanfeirniadaeth fel 'but a young antiquarian ebullition, and a first essay on Welsh affairs'. Dyma ei gyswllt cyntaf â Chymru, serch hynny, a gallai'r ffaith iddo glymu ei sylwad ynghylch presenoldeb eang y cof am John Lloyd wrth gyfnod ei lafur ynghylch hynafiaethau a hanes Ceredigion awgrymu ehangder daearyddol yr amgyffred o arwyddocâd rheithor Caerwys ym mlynnyddoedd cynnar y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Yn negawdau cyntaf y ganrif honno, ac am genedlaethau wedi hynny, John Lloyd oedd yr enw a gysylltid â *Theithiau* Pennant. Yn wir, aeth ei ferch mor bell â honni mai ei thad oedd awdur y cofnod ynghylch Owain Glyndŵr a ymddangosodd yn y gyfrol gyntaf, un o gyfraniadau enwocaf a mwyaf dylanwadol Pennant yng ngolwg ei gyd-wladwyr ymhell i mewn i'r ugeinfed ganrif.²

1. Samuel Rush Meyrick at Angharad Llwyd, 16 Mai 1822, llsg. Caerdydd 3.105, tt.21–4, yn enwedig t.23.
2. Gw. Ff. M. Jones, 'Rhwnig Pennant a'i Thad "Castellau y Fflynt" Angharad Llwyd (1780–1866)', *Studia Celtica*, LVII (2023), tt.131–50, yn enwedig t.144.

64 JOURNAL OF THE FLINTSHIRE HISTORICAL SOCIETY

Nid oes amheuaeth i Lloyd haeddu'r clod a awgrymir yng ngeiriau Rush Meyrick, ac mae ei gyfraniad i'r *Teithiau* wedi derbyn sylw sy'n cydnabod hynny o fewn cloriau'r cylchgrawn hwn ac mewn mannau eraill. Mewn erthygl yn yr 1980au cynnar, dadleuodd R. Paul Evans fod Pennant wedi cywiro agweddau hanesyddol ar destun y *Teithiau* ac ychwanegu'n sylweddol atynt cyn cyhoeddi'r gyfrol gyntaf yn 1778 a thrachefn cyn ymddangosiad yr ail a'r drydedd ran yn 1781 ac 1783.³ Gan dynnu ar dystiolaeth gohebiaeth y ddau mewn wyth llythyr, dyddiedig Mehefin 1777 hyd fis Mai 1793, ynghyd â nodiadau'n rhoi sylwadau penodol ar lawysgrif o'r *Teithiau* cyn eu cyhoeddi, dangosodd Evans natur dibyniaeth Pennant ar un a ddisgrifiodd fel 'my constant friend & companion in travel'.⁴ Yn y lle cyntaf, gallai Lloyd ddehongli gwybodaeth mewn testunau Cymraeg eu hiaith i'r Pennant di-Gymraeg, gan gynnwys deunydd o lawysgrifau John Sebright, Beechwood (eiddo Edward Lhuyd yn flaenorol) a roddwyd ar fenthylg gan y perchennog ym mis Awst 1778, a ffynonellau niferus ynghylch Owain Glyndŵr.⁵ At hyn, roedd Lloyd yn hynafiaethydd yn ei hawl ei hun: awgrymodd Evans mai ar gyfer Pennant y paratôdd fywgraffiad o Glyndŵr yn cydosod adroddiad gan John Thomas, Biwmares, a llawysgrif a anfonwyd o Rydychen gan geidwad llyfrgell Bodley, John Price.⁶ Mor drwyadl a byw oedd ei sylwadau ar gloddiadau archaeolegol nes ysgogi sawl enghraifft o lôn-ladrad pur ddigywilydd gan Pennant ('direct plagiarism', meddai Evans), a deunydd o lythyrau Lloyd yn ymddangos bron air-am-air yn y *Teithiau* a argraffwyd.⁷

Wedi cydnabod y ddibyniaeth neilltuol ar Lloyd, diben yr ysgrif hon yw ystyried a oedd ef mor unigryw ag y daeth darllenwyr diweddarach Pennant i dybio. Er i

3. R. P. Evans, 'Reverend John Lloyd of Caerwys (1733–93): Historian, Antiquarian and Genealogist', *Cylch. Cymd. Han. Sir y Fflint*, 31 (1983/4), tt.109–24, yn enwedig t.116.

4. Mae'r llythyrau hyn, ynghyd â deunydd atodol a anfonwyd gan Lloyd at Pennant, i'w gweld yn 'Welsh Circles: John Lloyd, Caerwys', Lleolwr Adnoddau Unffurf, URL [LIAU] (cyrchwyd 17 Chwefror 2024) <https://editions.curiostravellers.ac.uk/letters>. Daw'r dyfyniad ('constant friend ...') o Thomas Pennant at Richard Bull, 22 Awst 1793, LIAU (cyrchwyd 20 Gorffennaf 2024) <https://editions.curiostravellers.ac.uk/doc/1168>.

5. Evans, 'Reverend John Lloyd', tt.117, 118. Ynghylch y benthylg, gw. John Sebright at Thomas Pennant, 15 Awst 1778, yn Archifdy Sirol Swydd Warwig (ASSW mewn cyfeiriadau pellach), CR 2017/TP356/1.

6. Evans, 'Reverend John Lloyd', t.117; G. A. Williams, 'Testun o Feirionnydd: Golwg Arall ar "The History of Owen Glyndwr"', *Cylchgrawn Cymdeithas Hanes a Hofnodion Sir Feirionnydd*, XVIII, rhan III (2020), tt.237–53, 249, 251 n. 24.

7. Evans, 'Reverend John Lloyd', t.119; a gw. hefyd *ibid.*, t.120.

Pennant ei ddyrchafu yng ngolwg ei gyd-wladwyr, boed yn ddarllenwyr cymharol gyfoes megis Rush Meyrick neu'n Gymry Cymraeg canol a diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, fel ei 'gydymaith cyson ar y crwydradau hyn' ('my constant companion in these excursions'), mae'r darlun yn llawer mwy cyfoethog na hynny.⁸ Yn y prosesau o ddarllen testun y *Teithiau* ar ran Pennant gan gynnig sylwadau ar eu cynnwys, o gyfieithu deunydd Cymraeg, o ddarparu gwybodaeth berthnasol (ym mha faes bynnag), neu o ddod yn destun llên ladradd, fe'n cawn ein hunain yn holi ai Lloyd oedd yr unig enw a haeddai gydnabyddiaeth. Gan ganolbwyntio ar nifer fechan o leisiau o'r gogledd-ddwyrain ac yn benodol ar y cyfnod a arweiniodd at gyhoeddi cyfrol gyntaf y *Teithiau* yng Nghymru ddiwedd Mawrth 1778, y bwriad yma yw archwilio sut y manteisiodd Pennant ar sawl hysbyswr arall i gyflawni swyddogaethau darllenwyr, cyfieithwyr, neu ddarparwyr gwybodaeth yn y cyfnod prysur hwn.⁹ At hyn, gwelir bod ei ddiddordebau awdurol ef yn ei filltir sgwâr yn y gogledd-ddwyrain yn cael eu cefnogi gan chwilydded cylch o wŷr bonheddig a ymfrydai mewn dehongli a dadansoddi'r gorffennol drwy ei olion hynafiaethol a'i draddodiad llawysgrifol. Yn sicr, nid oedd Pennant yn gweithio mewn gwagle, ac mae'n bosibl fod diddordebau cyffredin iddo ef a hynafiaethwyr amatur yn ogystal â rhai a weithiai'n broffesiynol ym maes hanes a theithio wedi bod yn symbyliad.

'Rhaid diolch ...' ('I cannot pass unthanked ...'): Cymorth cydnabyddedig

Pwy oedd y cyfeillion a'r cydnabod a'i gwnaeth yn bosibl i Pennant gau pen y mwdwl ar gyfrol gyntaf ei *Daith*, prosiect y bu'n fwriad pendant ganddo ei baratoi i'w gyhoeddi er 1774? Gogledd-ddwyrain Cymru, siroedd Dinbych a'r Fflint, ynghyd â dinas gyfagos Caer, yw canolbwynt y gyfrol gyntaf hon. Er bod Pennant wedi casglu deunydd ar gyfer cyfrolau pellach yn sir Feirionnydd a sir Gaernarfon drwy ddilyn siwrneiau gwirioneddol yno yn 1770, ac wedi tramwyo cyn belled ag Ynys Enlli ac Ynys Môn yn ôl yn y 1750au, cyn i gyhoeddi teithlyfrau wawrio arno fel posibilrwydd, mae'n debyg, ardaloedd y gyfrol gyntaf oedd yn hawlio'i sylw pennaf yn ystod 1777 ac 1778, i'r graddau yr oedd Cymru ar ei feddwl o gwbl.¹⁰

8. Thomas Pennant, *A Tour in Wales 1770 [1773]* (London, 1778), I, t.iv.

9. Ynghylch dyddiad cyhoeddi cyfrol gyntaf y *Teithiau*, gw. R. P. Evans, 'Thomas Pennant's Writings on North Wales' (traethawd MA anghyhoeddedig, Prifysgol Cymru Abertawe, 1995), tt.35, 90 n. 177.

10. Am ddyddiadur Pennant o'i deithiau i Feirionnydd ac Arfon yn 1770, gw. llsgr. LIGC 2532B.

Gwerth nodi yma fod ei famwlad yn cystadlu â llu o brosiectau eraill yn yr un cyfnod: yn eu plith, ei ymdrechion i ganfod gohebwyd Ewropeaidd (parhad o weithgaredd byw iawn iddo yn y 1750au a'r 1760au);¹¹ derbyn sylwadau a chywiriadau i'w *Deithiau* yn yr Alban gan ddarllenwyr brodorol y wlad honno (yn dilyn ymddangosiadau'r golygiadau diweddaraf o'r ddwy *Daith* yn 1776);¹² a chynllunio map o Brydain yn oes y Rhufeiniaid.¹³

A rhoi ymyrraeth ei ddiddordebau lluosog eraill o'r neilltu (fel y gwnaeth Pennant ei hun, mae'n amlwg), gallwn droi at ei ragair i gyfrol 1778 o'i *Daith*, lle nad yw'n annisgwyl gweld enwau cymdogion agos yn ymddangos ymhlith y gwŷr bonheddig y dymunai gydnabod eu cymorth. O blith y rhai a grybwyllir sydd â chysylltiad ag ardal y *Daith* gyntaf yn y gogledd-ddwyrain, ac yn benodol yn sir y Fflint a rhannau o sir Ddinbych sy'n ffinio â hi, ceir rhai yr enwir eu cyfraniadau'n glir, eraill a adewir yn enwau'n unig. Anodd iawn yw pennu'n union ym mha fodd y cynorthwywyd Pennant gan bob un o'r rhai a nodir: Thomas Mostyn o Dalacre; Peter Davies, Broughton; neu Lloyd Kenyon, Gredington, er enghraifft. Cyfeirir at deulu Mostyn, Talacre ('Trelacre' yw ffurf Pennant), a'u defnydd hyd yn ddiweddar o rannau o weddillion abaty Basing, ac mae'n bosibl, felly, i ryw gymorth ddod mewn perthynas â'r adeilad hwnnw, er na chanfuwyd unrhyw dystiolaeth o hynny. Rhoddir cydnabyddiaeth i Peter Davies yng nghyfrol gyntaf y *Teithiau* fel 'my respected kinsman', a chadwyd gohebiaeth rhyngddo a Pennant yn trafod materion etholiadol yn 1784. Mae Roger Kenyon, yntau, yn dod i'r amlwg yng ngohebiaeth Pennant mewn cyswllt gwleidyddol ar ddechrau'r 1780au, ond aneglur yw cyfraniad y ddau olaf i destun y gyfrol gyntaf.¹⁴ Mae'n haws tybio y byddai Paul

11. Gw. e.e. Edward Darell at Thomas Pennant, 22 Gorffennaf 1777, yn ASSW, CR 2017/TP210/5; Thomas Pennant at y Barwn [Albrecht von] Haller, 12 Mai 1777, yn llsg. LIGC 14005E; a Ff. M. Jones, P. Beeley ac Y. Ryan, "'From the Cabinets of mere virtuosi into the busy world": Thomas Pennant's Natural Philosophical Networks and the Creation of British Zoology, 1752–1766', *Huntington Library Quarterly*, 86.2 (2023), tt.315–43.

12. Gw. Thomas Jones at Thomas Pennant, 9 Ebrill 1777, ASSW, CR 2017/TP266/1–2; James Lawtie at Thomas Pennant, 28 Mehefin 1777, yn amgáu llythyr Algernon Gordon at James Lawtie, 3 Ebrill 1777, ASSW, CR 2017/TP278/3 a /4.

13. J. Whitaker at Thomas Pennant, 5 Ebrill 1777, ASSW, CR 2017/TP388.

14. Gw. Pennant, *A Tour in Wales 1770* [1773], I, t.25, ynghylch teulu Mostyn, Talacre; *ibid.*, t.216, am gyfeiriad at arhosiad Pennant yng nghartref Peter Davies ym Mrychdyn (Broughton), lle nodir perthynas rhwng Davies a llinach Tudur Trefor; Thomas Pennant at Peter Davies, 16 Mawrth 1784 ac 19 Hydref 1796, yn LIGC, Trawsgrifiadau Gwysaney, 78A a 78B; a R[oger] Kenyon at [Thomas Pennant], 2 Chwefror 1780, llsg. LIGC 12706E, tt.121–2.

Panton, cymydog Pennant o Fagillt, wedi estyn ei gymorth, ond mae'r dystiolaeth sydd ar glawr yn gwthio ei gyfraniad ef i ail gyfrol y *Teithiau*, a pha ryfedd hynny, o ystyried bod ei gyswllt â Môn yn cystadlu â'i ymrwymiad i'w sir enedigol ers ei briodas â Jane Jones, aeres Plas Gwyn, Pentraeth, yn 1756.¹⁵ Un cyfraniad cynnar oddi wrth Panton a fyddai'n sicr wedi hawlio sylw Pennant oedd llythyr hirfaith o Blas Gwyn fis Tachwedd 1774.¹⁶ Gwybodaeth ynghylch sir Fôn — yn drefi ac ardaloedd gwledig, ac yn draddodiadau a warchodwyd ar gân a cherdd heb sôn am hanesion rhai o'i phwysigion — oedd prif genadwri'r ohebiaeth hon, ond rhoddodd Panton sylw yn ogystal i ddeunydd o rai o siroedd eraill y gogledd (megis portread trawiadol o gymeriad blaenllaw o Ddinbych, yr hynafiaethydd a'r gwneuthurwr mapiau, Humphrey Llwyd (1527–68)). Gwnaeth Pennant fynegai i'r deunydd yn y llythyr hwn sy'n nodi ei ddefnydd o beth ohono ar ffurf atodiadau i'w *Deithiau* cyhoeddedig ac yn dangos sut yr oedd, fwy na thebyg, yn cynllunio ail gyfrol ei waith yn gyfochrog â'r gyntaf.¹⁷ Yn ddiweddarach, daeth llythyrau pellach oddi wrth Panton i atgyfnerthu ei gyfraniad i bortread ail gyfrol y *Teithiau* o rannau gorllewinol gogledd Cymru.¹⁸

Os oedd llais Panton yn gogwyddo tuag at yr ail gyfrol, a lleisiau eraill ynghudd ym mhlygion y gyfrol gyntaf, hawdd gweld, ar y llaw arall, beth oedd cyfraniad Owen Brereton o Shotton Park ger Caer i'r gyfrol a ymddangosodd yn 1778. Daw ef yn un o'r personoliaethau cyfoes, byw, a goffeir yn y *Teithiau*, pan yw Pennant yn torri'r ffiniau rhwng y gorffennol a'r presennol ac yn poblogi swyddogaethau sifil hanesyddol arwyddocaol â chyfoedion a chydabod iddo yn ei ddyddiau ei hun. Yn dilyn adroddiad ynghylch hynt a helynt castell y Fflint yn ystod y Rhyfeloedd Cartref, lle serennodd un o hynafiaid ei gydnabod, Syr William Brereton, ar ochr y Brenin, nododd:

15. Gw. *Y Bywgraffiadur Cymreig* d.e. Panton, Paul (1727–1797). Sylwer fodd bynnag fod Panton wedi cynnal diddordeb byw mewn mentrau diwydiannol yn sir y Fflint: ffurfiodd waith smeltio yn Coleshill-fawr yn 1755, flwyddyn cyn ei briodas â Jane. Gw. T. Pennant, *The History of the Parishes of Whiteford and Holywell* (London, 1796), t.276.
16. Paul Panton at Thomas Pennant, 8 Tachwedd 1774, yn ASSW, CR 2017/TP21/7.
17. Ymddangosodd yr holl atodiadau ar ddiwedd yr ail gyfrol, yn eu plith eitemau yn tarddu o'r llythyr hwn oddi wrth Panton ('Warrant for a stag out of Snowdon Forrest', Atodiad IX; ac 'Address of the inhabitants of Caernarvonshire to Richard Cromwell', Atodiad XVI). Gw. *ibid.*, a Pennant, *A Tour in Wales 1770 [1773]* (1781, 1783), II, tt.465–6, 482–3.
18. Gw. e.e. Paul Panton at Thomas Pennant, 20 Gorffennaf 1782, yn ASSW, CR 2017/TP321/1, sy'n trafod teulu Williams o'r Faenol, sir Gaernarfon.

68 JOURNAL OF THE FLINTSHIRE HISTORICAL SOCIETY

On the restoration, it was resumed by the crown, among its other rights, in which it still continues. The crown governs it by a constable, who is likewise mayor of Flint. These offices are at present filled by my friend Owen Brereton, esquire.¹⁹

Teilyngasai Brereton y sylw hwn drwy gyfraniad nodedig a phwysig at y gyfrol gyntaf: rhoddodd fenthyg hynafiaethau difyr ('curious antiquities') a ganfuwyd ar ei stad ger y Fflint i Pennant, gan arwain at ymdriniaeth destunol helaeth gan awdur y *Teithiau* a galluogi 'the more descriptive description, a print' ar ffurf engrafiad ohonynt ar gyfer y gyfrol (platiau viii a ix), ysgythriadau sy'n seiliedig ar ddarluniau cain o'r gwrthrychau gan Moses Griffith, artist Pennant.²⁰ Daw i'r amlwg i Pennant wneud penderfyniad ynghylch pa rai o'r llu eitemau a ddarganfuwyd a deilyngai eu cofnodi drwy eu hengrafio. Gwnaeth ei ddewis, meddai, ar sail cyflwr y gwrthrychau; roedd rhai wedi eu difrodi i'r fath raddau fel na ellid eu dehongli ('so mutilated or injured by time, as to be rendered quite unintelligible').²¹ Olion Rhufeinig oedd y rhan fwyaf, tybiai Pennant, a cheir yn ei ddeongliadau gipolwg ar nodweddion gwareiddiad cynnar sy'n cymysgu'r cartrefol-ddealladwy â'r arswydus a'r ofergoelus. Daw'r bobloedd a wnâi ddefnydd o'r offer yn fyw, a Pennant yn eu portreadu fel cymeriadau deublyg — yn debyg i ddynion ei oes ei hun ar un ystyr, ond hefyd yn hollol wahanol. Greddfau digon derbyniol a dealladwy yw rhai boneddigesau'r cyfnod Rhufeinig i addurno cabinet gydag allwedd ddeniadol, neu angen y pysgotwr am bwysau metel ar gyfer suddo rhwyd bysgota. Ar y llaw arall, mae Pennant yn amlwg anghyfforddus wrth nodi hygoledd ac ymroddiad y bobl hyn i'w duwiau (rhai ohonynt yn anllad, nodir), ynghyd â'u hymlyniad posibl wrth ddefodau aberthu anwaraidd. Beirniadol yw goslef waelodol Pennant; ac eto, mae'r gwyddonydd gwrthrychol yn bresennol yn ei ddadansoddiad yn ogystal, yn chwilio am dystiolaeth gyfoes o waith y beirdd clasurol i gefnogi a lliwio'i safbwyntiau, neu'n tynnu ar ymchwil mwy diweddar i fwrw amheuaeth ar ei ddadansoddiadau ei hun. Mewn troednodyn, er enghraifft, mae'n cydnabod gwaith y comte de Caylus, *Recueil D'Antiquités* (1752–67), wrth

19. Pennant, *A Tour in Wales 1770* [1773], I, tt.48–9.

20. Ibid., t.ii; mae trafodaeth Pennant ar yr hynafiaethau ar tt.67–72.

21. Ibid., t.72. Cynhyrchodd Griffith ddarluniau o dri deg a chwech o'r gwrthrychau hyn, gan ddyddio'i waith i'r flwyddyn 1776, a Pennant yn nodi mewn pensel ar frig y dudalen, 'a few of these not engraven'. Gw. Amgueddfa Genedlaethol Cymru, NMW A 3147, 'Roman Remains at Flint', a Phlât 1. Mae dwy eitem ar bymtheg yn y darlun hwn yn cyfateb i rai ymhlith y naw ar hugain a engrafiwyd ar gyfer *A Tour in Wales 1770* [1773], I, platiau viii a ix.



Plate 1: Moses Griffith, 'Olion Rhufeinig yn Eflint'. [Angueddfa Genedlaethol Cymru]

70 JOURNAL OF THE FLINTSHIRE HISTORICAL SOCIETY

gwestiynu ei ddadansoddiad o un grŵp o eitemau fel offer ar gyfer aberth dynol: 'According to the uncertainty that reigns respecting the uses of the antient instruments, I may hazard another conjecture, that they have been chirurgical instrument', meddai.²² Ni wyddom a ddylanwadodd Owen Brereton ar y dehongli hwn; fe'i hetholwyd ef yn gymrawd i'r Gymdeithas Frenhinol yn 1763, ac er mai dim ond un papur a gyfrannodd at gyfnodolyn y gymdeithas, y *Philosophical Transactions*, a hynny ar ran cyfaill yn 1781, mae'n anodd dychmygu na fyddai ef a Pennant wedi trafod y darganfyddiad nodedig hwn, fel dau hynafiaethydd brwd.²³

Cylchoedd hynafiaethol: Philip Yorke a Kenrick Eyton

Mae'r tebygolrwydd i Pennant drafod ei ddiddordebau ag eraill wrth baratoi cyfrol gyntaf ei *Deithiau* yn cael ei ddadlennu mewn ymdriniaeth newydd o waith Mary-Ann Constantine sy'n tynnu sylw at chwilfrydedd ymhlith sawl hynafiaethwr o sir y Fflint yn y 1770au canol ynglŷn â'r murglawdd a adwaenid wrth yr enw 'Wat's Dyke'.²⁴ Dengys Constantine fod sawl cyfaill neu gydnabod i Pennant yn awyddus i fwrw'i geiniogwerth i'r het wrth ddamcaniaethu ynghylch diben y clawdd hwn ar y ffin rhwng Cymry a Saeson yn sir Ddinbych a sir y Fflint, o'r gwneuthurwr mapiau o Lanymynech, sir Drefaldwyn, John Evans, i'r clerigwr William Warrington o Rhyddyn (neu Rhydyn) Hill, Caergwrle, a'r bonheddwr o blasty Erddig, Philip Yorke. Gellir oedi yma gydag Yorke, a oedd yn bresenoldeb pwysig yn y gyfeillach rhwng hynafiaethwyr yn y gogledd-ddwyrain yng nghyfnod paratoi cyfrol gyntaf *Teithiau* Pennant. Drwy ei ohebiaeth â Pennant, cawn flas ar sut y câi olion

22. Philippe Claude Anne de Tubières, comte de Caylus, *Recueil D'Antiquités Egyptiennes, Etrusques, Grecques et Romaines* (Paris: Deaint & Saillant, 1752–67), iv, 169, gw. LIAU (cyrchwyd 29 Mehefin 2024) <https://www.royalacademy.org.uk/art-artists/book/recueil-dantiquites-egyptiennes-etrusques-grecques-et-romaines>; Pennant, *A Tour in Wales 1770* [1773], I, t.70.

23. ODNB d.e. Brereton, Owen Salusbury. Gw. hefyd O. S. Brereton, 'Account of the violent storm of lightning at East-bourn, in Sussex, Sept. 17, 1780', *Philosophical Transactions*, 71 (1781), LIAU (cyrchwyd 14 Mehefin 2024) <https://doi.org/10.1098/rstl.1781.0021>; a'r cofnod ynghylch darlun lliw o ffenestr yn eglwys y plwyf, Brereton, a ddangoswyd gan Owen Brereton Salusbury mewn cyfarfod o Gymdeithas yr Hynafiaethwyr ar 22 Mai 1788, *Archaeologia*, 9, Atodiad, 368; gw. LIAU (cyrchwyd 14 Mehefin 2024) <https://www.twentytrees.co.uk/History/Books/Thing/Archaeologia-Volume-9-Appendix.html?x8e6xzBh#CvIFB98d>. Ceir ymateb i'r eitem olaf gan S. Pegge, 'Some Observations on the Paintings in the Window of Brereton Church ... in a Letter to Owen Salusbury Brereton, Esq. Vice President. Read Nov. 26, 1789', *Archaeologia*, 10, Adran IV, LIAU (cyrchwyd 14 Mehefin 2024) <https://www.twentytrees.co.uk/History/Books/Thing/Archaeologia-Volume-10-Section-IV.html?S5WXyVld#S5WXyVld>.

24. M-A Constantine, *Curious Travellers: Writing the Welsh Tour* (Oxford, 2024), pennod 2.

hynafiaethol eu canfod, eu dehongli, a'u trafod ymhlith unigolion, a sut roedd y prosesau hyn yn rhan o gefnlen gwaith cyhoeddedig Pennant. Gan gamu am y tro y tu hwnt i gwestiwn y clawdd a oedd yn destun diddordeb ymhlith yr hynafiaethwyr hyn, cawn enghraifft mewn llythyr oddi wrth Yorke at Pennant ym mis Tachwedd 1777 o drafodaeth bur wahanol. Ysgrifennai Yorke yn sôn am y sgwrs a gawsai â Mr Newcome (sef Henry Newcome, ficer Gresffordd rhwng 1764 a'i farwolaeth yn 1803)²⁵ ynglŷn â cherflun o 'hen Brydeiniwr' ('ancient Briton') a oedd wedi dod i'r amlwg o dan wal ei eglwys.²⁶ Bwriad Yorke oedd dwyn ynghyd ei saer ei hun a'r herodr George Wilkinson o Gaer er mwyn ceisio dadleoli'r 'Prydeiniwr' o'i safle ac, efallai, roi cyfle i Wilkinson wneud cofnod o'r deunydd arfbeisiol neu arysgrifol oedd yn rhan o'r cerflun.²⁷ Yn y gwaith maes ynglŷn â'r heneb hon, felly, gallai Yorke dynnu ar ei gysylltiadau gyda chyflogai ('My Mason (who is a careful Person, and like his Master, having a due veneration for Antiquities)'), gyda'r ficer lleol y bu'n trafod y mater ag ef dros bryd o fwyd yn Erddig ('Mr Newcome dined with me last Thursday ...'), a gyda'r herodr o Gaer ('if he should be at liesure [*sic*] to attend us in the Course of next week').²⁸ At hyn, roedd cynhorthwy deallusol ar gael i symud y broses gam ymhellach: John Lloyd, Caerwys, un a oedd yn barod i roi benthyg o'i lyfrgell ddeunydd llawysgrifol prin a chopïau o lyfrau printiedig gydag mymynodau deongliadol gwerthfawr ynddynt.²⁹ Tybiai Yorke, o gysoni'r hyn a wyddai ynghylch yr 'hen Brydeiniwr' o dan wal eglwys Gresffordd ag ymylnodyn yng nghopi Lloyd o gyfrol David Powel[1], *The Historie of Cambria, now called Wales* (1584), mai cerflun i goffáu Madog ap Llywelyn ap Griffri ydoedd, ac iddo gael ei gladdu yng Ngresffordd tua'r flwyddyn 1330.

Mae mynd i wraidd pwy oedd yr 'hen Brydeiniwr' hwn yn bur gymhleth, ysywaeth. Pan ddaeth Pennant i lunio testun terfynol y *Teithiau*, cyfeiriodd yn

25. Gw. LIAU (cyrchwyd 20 Gorffennaf 2024) <https://theclergydatabase.org.uk/jsp/search/index.jsp> d.e. Newcome, Henry (1754–1803).

26. Philip Yorke at Thomas Pennant, 17 Tachwedd 1777, ASSW, CR 2017/TP23/4, LIAU (cyrchwyd 20 Gorffennaf 2024) <https://editions.curiostravellers.ac.uk/doc/1357>.

27. Roedd Wilkinson yn un o gydnabod Pennant yn ogystal. Darparodd wybodaeth drwy lythyr ato ynghylch hynafiaethau Caer; gw. George Wilkinson at Thomas Pennant, 20 Ionawr 1777, yn ASSW, CR 2017/TP4/8.

28. Philip Yorke at Thomas Pennant, 17 Tachwedd 1777, ASSW, CR 2017/TP23/4, LIAU (cyrchwyd 20 Gorffennaf 2024) <https://editions.curiostravellers.ac.uk/doc/1357>.

29. Gw. e.e. y cyfeiriad at 'Pentarchia' Richard Powell ('Powell's latin verses') yn Philip Yorke at Thomas Pennant, 19 Gorffennaf 1791, LIAU (cyrchwyd 20 Gorffennaf 2024) <https://editions.curiostravellers.ac.uk/doc/1361>.

72 JOURNAL OF THE FLINTSHIRE HISTORICAL SOCIETY

ganmoliaethus at waith a wnaed gan y ficer, Newcome, y tu mewn i eglwys Gresffordd ('The neat reparation of the inside, is owing to the direction and excellent judgment of the reverend Mr. Newcome, the present vicar').³⁰ Yn yr eil ogleddol, adroddodd Pennant, gorweddai beddrod rhyfelwr mewn llurig, yn gafael mewn tarian ac arni ddelwedd o lew ar ei sefyll ('lion rampant'), a'r geiriau '*Hic jacet MADOC AP LLEWELIN AP GRUFF*', a gladdwyd ar ddygwyl Fathias apostol (sef 24 Chwefror) 1331.³¹ Ai hwn oedd yr 'hen Brydeiniwr' y bu Yorke a'i gynorthwywyr mor brysur yn ei gylch ychydig fisoedd cyn cyhoeddi cyfrol gyntaf y *Teithiau*? Ac a oedd ei adleoli ef yn eil ogleddol yr eglwys yn rhan o ymdrechion y ficer i dcluso tu mewn yr adeilad? Mewn golygiad newydd o'r *Teithiau*, ganrif yn ddiweddarach, rhoddwyd sylw pellach i 'ddarn o garreg fedd' yn yr eglwys gan Trevor Parkins (1822–1908), brodor o Gresffordd a fu'n cynorthwyo John Rhys â'r golygiad hwn, gan ychwanegu gwybodaeth hynafiaethol leol werthfawr mewn nodiadau i'r testun.³² Maentumiai Parkins mai 'Griffri' (nid 'Gruff' Pennant) oedd y darlleniad cywir o'r enw, a dadlennodd i'r darn hwn o garreg fedd gael ei darganfod 'ychydig flynyddoedd yn ôl' ym mhlasty Pantiocyn (Pant-yr-Ochain), gerllaw, yna ei ddychwelyd i eglwys Gresffordd, sef ei gartref gwreiddiol.³³ Mae'r tebygrwydd rhwng y garreg a welodd Parkins a'r beddrod y cofnododd Pennant iddo yntau ei weld yn eglwys Gresffordd yn ogleisiol: y disgrifiad o'r darian â'i llew parod am ffrwgwd; yr arysgrif ('*Hic jacet Griffri*') yn ôl darlleniad Parkins a'r enw Madog ap Llywelyn ap Griffri y cydiwyd ynddo gan Yorke wedi darllen ymylnodyn John Lloyd); a'r ddau ddyddiad claddu agos a nodir (1330 ac 1331). Serch hynny, mae'n amlwg fod dau unigolyn gwahanol yn cael eu trafod yma, y naill wedi ei goffáu mewn beddrod, y llall ar slaben o garreg yn unig: y Madog ap Llywelyn ap Griffri o linach Tudur Trefor, o Eytyn, Erlisham (Erlas) a Rhiwabon (yn *Nheithiau* Pennant), a'r Madog oedd yn fab i Gruffudd ap Madog, y Barwn Gwyn (yn ôl dehongliad Yorke).³⁴ Ni allwn, efallai, ond nodi mor agored i gamddeongliadau oedd yr

30. Pennant, *A Tour in Wales 1770* [1773], t.298.

31. Pennant, *A Tour in Wales 1770* [1773], t.299.

32. J. Rhys (gol.), *Tours in Wales by Thomas Pennant, Esq; With Notes, Preface, and Copious Index*, 3 cyf. (Caernarvon, 1883), I, t.388.

33. Ynghylch Pantiocyn, gw. LIAU (cyrchwyd 29 Mehefin 2024) <https://coflein.gov.uk/en/site/27613?term=pant%20yr%20ochain%2Cgresffordd>.

34. Pennant, *A Tour in Wales 1770* [1773], t.299, a L. Dwnn, *Heraldic Visitations of Wales and part of the Marches*, gol. S. R. Meyrick, 2 gyf. (Llandovery, 1846), II, t.360; a Philip Yorke at Thomas Pennant, 17 Tachwedd 1777, ASSW, CR 2017/TP23/4, LIAU (cyrchwyd 20 Gorffennaf 2024) <https://editions.curious-travellers.ac.uk/doc/1357>.

wybodaeth ynghlwm wrth feddrodau, ac mor fyw a chyfnewidiol oedd y darlleniadau ohonynt wrth i hynafiaethwyr ddod ynghyd i geisio eu deall a'u dehongli.³⁵

Parhaodd ymdrechion Yorke ar ran Pennant weddill mis Tachwedd 1777, er iddo orfod ysgafnhau cywair ei sgysiau gohebol â Pennant ar adegau, gan droi oddi wrth ddiddordebau trymion yr hynafiaethydd at ei 'gariad' arall, sef canu cerddi talcen slip. Beth arall allai dyn ei wneud pan oedd yn canfod rhwystrau ble bynnag y trôï? Bu Yorke yn chwilota'n ymroddedig ond yn ofer am ryw lyfr bychan neu ei gilydd er mwyn gallu ateb cwestiynau penodol a ofynnwyd iddo gan Pennant ('I have searched diligently for the small book you mentioned, in hopes of Returning you the *desiderata*, but without effect'), meddai, gan ofyn a gâi ragor o amser i ddod o hyd i wybodaeth ynghylch cwmwd Maelor Gymraeg (neu Bromfield).³⁶ Ac nid oedd byth wedi llwyddo i symud yr 'hen Brydeiniwr' o waelod y wal yng Ngresffordd. Yr un mis, roedd cynnydd mwy ffafriol o gyfeiriadau eraill: anfonodd William Wynne o'r Wyddgrug restr yn nodi enwau maenordai sir y Fflint a'u perchnogion at Pennant ar 24 Tachwedd, gan osod yr wybodaeth yn glir ger ei fron mewn dwy golofn daclus.³⁷ Gallai Pennant wneud defnydd o wybodaeth o'r math hwn yma a thraw drwy'r gyfrol gyntaf, wrth geisio ffurfioli'r cysylltiad rhwng perchnogaeth hanesyddol a chyfredol tiriogaeth yn yr ardal hon. Mae'n disgrifio Maelor Saesneg fel 'a hundred of FLINTSHIRE disjoined from the rest of the county', gan egluro bod y cantref nid yn unig yn wasgaredig oddi wrth weddill y sir ond hefyd yn doredig ynddo'i hun, a phocedi ohono'n ymddangos megis ynysoedd oddi mewn i sir Ddinbych.³⁸ 'The chain is supposed to have been once entire; but as many of the links were often fields, which (by reason of their smallness) were neglected,

35. Am ddau feddrod yn eglwys Gresffordd sy'n rhannu rhai o'r nodweddion a drafodwyd yma, gan gynnwys dyddiadau priodol, y naill yn ddarn o garreg a'r llall yn feddrod sylweddol, gw. trafodaeth sy'n seiliedig ar ymchwil C. A. Gresham, *Medieval Stone Carving in North Wales* (Cardiff, 1968), rhifau 136 ac 174, LIAU (29 Mehefin 2024) <https://howardwilliamsblog.wordpress.com/2018/03/04/gresfords-medieval-monuments/>.

36. Philip Yorke at Thomas Pennant, 30 Tachwedd 1777, LIAU (29 Mehefin 2024) <https://editions.curiostravellers.ac.uk/doc/1358>.

37. W. Wynne at Thomas Pennant, 24 Tachwedd 1777, yn ASSW, CR 2017/TP22/3. Am ohebiaeth oddi wrth Wynne at Ralph Griffith(s), twrnai yng Nghaer, ynghylch materion cyfreithiol, rhai ohonynt yn ymwneud â dynodi'r ffin rhwng arglwyddiaethau'r Wyddgrug ac un Maelor Gymraeg ac Iâl (1762-3, a d.d.), gw. LIAU (29 Mehefin 2024) <https://archives.library.wales/index.php/letters-to-ralph-griffith-s>.

38. Pennant, *A Tour in Wales 1770 [1773]*, tt.214–15.

74 JOURNAL OF THE FLINTSHIRE HISTORICAL SOCIETY

and lost', meddai, gan enwi rhai trefedigaethau a ychwanegwyd yn ddiweddarach at Faelor Saesneg (a ddynodwyd yn rhan o sir y Fflint gan Edward I), a rhai a gollwyd.³⁹ Penllanw ei ymdriniaeth â'r ddaearyddiaeth weinyddol hon yw enwi deiliaid arglwyddiaeth Maelor Saesneg, gan gychwyn yng nghyfnod Harri IV a diweddu â'r perchnogion presennol, Syr Walden Hanmer a Philip Lloyd Fletcher, gwybodaeth a ddaethai iddo drwy law William Wynne.⁴⁰ Yn arglwyddiaeth yr Wyddgrug, un o ardaloedd creiddiol sir y Fflint, i'r gogledd o Faelor Saesneg, clywn lais Wynne yn glir yn nhrafodaeth Pennant ar destun yr hawl i elwa o'r mwynau yn y tir. Meddai am yr arglwyddiaeth hon: 'Mold is at present the property of lady Vincent. The mineral advantages of the manor, which have, at times, been very considerable, are equally divided between her ladyship, the *Trevors*, and Mr. *Lloyd of Tyddyn*', gan adlewyrchu nodiadau Wynne ('The Minerals within the Lordship are divided into 3 parts – Lady Vincent 3d. Lloyd of Tythin 3d. & the Trevors the other 3d.').⁴¹

Ochr yn ochr â'r diddordeb hwn ym muddiannau'r bendefigaeth y syrthiodd arglwyddiaethau sir y Fflint i'w dwylo, roedd cyfleu hanes cynnar y teuluoedd dylanwadol hyn yn rhan allweddol o'r hyn y dymunai Pennant ei gyflawni yn ei *Deithiau*. I wneud hynny, rhaid oedd cael mynediad at wybodaeth am feddrodau ac mewn llyfrau achau hynafol, weithiau oddi wrth aelodau hŷn o'r bonedd yn y gymdogaeth. Ym mis Medi 1777, derbyniodd Pennant ddeunydd drwy law John Lloyd, Caerwys, 'o lyfr Mr Eyton', yn amlinellu llinach Richard Mutton o Ruddlan a'i wraig Elen ferch John Aer Hen Conwy o Botryddan.⁴² Kenrick Eyton o Eyton ym Maelor Saesneg, sir Ddinbych, uwch-siryf y sir yn 1753, oedd perchennog y llyfr hwn. Diolchodd Pennant iddo am ei gymorth yn rhagair cyfrol gyntaf y *Teithiau*, yn ogystal â rhoi peth cydnabyddiaeth benodol i'r llyfr (neu'r llawysgrif) a ddisgrifir gan John Lloyd fel 'Mr Eyton's Book'.⁴³ Goroedd gohebiaeth uniongyrchol rhwng

39. Ibid., t.215.

40. Ibid., t.216; a W. Wynne at Thomas Pennant, 24 Tachwedd 1777, yn ASSW, CR [h.y. CR 2017/TP22/3.

41. Pennant, *A Tour in Wales 1770* [1773], t.399; a W. Wynne at Thomas Pennant, 24 Tachwedd 1777, yn ASSW, CR 2017/TP22/3.

42. John Lloyd at Thomas Pennant, 6 Medi 1777, ASSW, CR 2017/TP286, LIAU (29 Mehefin 2024) <https://editions.curious travellers.ac.uk/doc/1380>.

43. Gw. ibid. am y cyfeiriadau yn Pennant, *A Tour in Wales 1770* [1773], I, tt.226, 286. Ni cheir cydnabyddiaeth gan Pennant yn y gyfrol i'r deunydd a drosglwyddwyd o'r llyfr gan Lloyd yn ei lythyr ar 6 Medi 1777.

Eyton a Pennant, hefyd, sy'n dangos parodrwydd yr hynafgwr hwn i rannu'r oll a fedrai er mwyn dwyn hanes ei hynafiaid i olau dydd yng ngwaith printiedig Pennant. 'Excuse good Sr the blunders and inaccuracy of an Old man who has little ability but much good will to promote your laudable design', meddai wrth gloi'r ail o ddau lythyr o'i eiddo at Pennant ym mis Ebrill 1777 sydd wedi goroesi.⁴⁴ Yn ei lythyr cyntaf, dyddiedig ychydig wythnosau yn unig ynghynt, adlewyrchir trafodaeth gyhoeddedig *Teithiau* Pennant ar gymhlethdod ffiniau sir y Fflint (gw. uchod). Roedd Eyton yn ymwybodol o ansefydlogrwydd ffiniau siroedd Dinbych a'r Fflint ac o anawsterau'r sawl a fynnai briodoli tiroedd i berchnogion hanesyddol. O edrych yn ôl ar hanes un o'i gyndeidiau, John ap Ellis Eyton, a wobrwyyd â thiroedd gan Harri VII yn dilyn ei gyfraniad at fuddugoliaeth Maes Bosworth (1485), er enghraifft, roedd o'r farn ei bod yn anodd darganfod perchnogion blaenorol y tiroedd hyn:

... to discover who these Lands belongd to before, will prove a difficult tasc [*sic*]. it is probable that in those days property was very uncertain. perhaps the Land had for a Long time lain common, and cultivation prevented by hostile incursions[.] till the following reign the Counties of Denbigh and Flint had no name.⁴⁵

Mewn perthynas â lleoliad arall ym Maelor Saesneg, sef plwyf Erbistog, ategodd yr argraff o ffiniau ansefydlog y ddwy sir:

The Counties of Denbigh and Flint are so intermixd with each other, that in some places, particularly in the parish of Erbistock, that a man in walking half a mile ~~without~~ must crossing both the Counties several times. the reason of this is supposed to be, that the Earle of Derby insisting that all his estates should be in the County of Flint, part of them being then in common fields, where very rarely any one Person has more than two or three butts⁴⁶ of Land contiguous. what was the Earle of Derbys property is now Flintshire, and the rest Denbighshire.⁴⁷

Ceir adlais penodol o'r wybodaeth yn y *Teithiau*, sy'n dangos cymhlethdodau dwy system weinyddol hanesyddol, y naill gan Edward I yn dilyn concwest 1284 yn

44. Kenrick Eyton at Thomas Pennant, 10 Ebrill 1777, yn llsg. LIGC 15421C, rhif 63.

45. Kenrick Eyton at Thomas Pennant, 25 Mawrth 1777, yn llsg. LIGC 15424E, dim rhifau ffolio.

46. Gw. *OED* d.g. butt: 'A raised strip of cultivated land between two furrows, a ridge. Also: a measure of land equivalent to this in size'.

47. Kenrick Eyton at Thomas Pennant, 25 Mawrth 1777, yn llsg. LIGC 15424E, dim rhifau ffolio.

76 JOURNAL OF THE FLINTSHIRE HISTORICAL SOCIETY

arwain at greu sir y Fflint, a'r llall gan Harri VIII, pan ddaeth sir Ddinbych i fodolaeth, a goblygiadau'r newidiadau hyn i'r uchelwyr tiriog.⁴⁸ Yn ôl traddodiad byw yn y wlad, meddai Pennant, mynnodd Iarll Derby adleoli yr Hôb yn sir y Fflint er mwyn sicrhau bod ei holl diriogaeth yn syrthio o fewn ffiniau'r un sir.⁴⁹

Ffin arall yr oedd Eyton yn ymwybodol ohoni oedd yr un rhwng y Brython a'r Sacson a gynrychiolid gan ddau glawdd cyfochrog Offa a Wat. Daeth at y testun hwn drwy ei ddi-ddordeb teuluol yn nisgynyddion John ap Ellis Eyton, cangen o'i deulu a ymsefydlodd yn Watstay (Wynnstay yn ddiweddarach, fel yr eglura Pennant yn y *Teithiau*): 'There is yet to be seen I believe in Wynstay park part of a trench called Claud. Wat. it runs North and South Parallel to Offas Dyke and about a mile to the East of it.'⁵⁰ Dyma lais arall i'w ychwanegu at y rhai a ymddiddorai yn y clawdd hwn, felly; ac yntau'n ŵr oedrannus, roedd tystiolaeth Eyton ynghylch traddodiadau a oedd ynghlwm wrth y cloddiau'n dra phwysfawr ac yn arwydd o hirhoedledd eu harwyddocâd. Gwyddai Eyton, fel Yorke, sut y defnyddid y bwllch rhwng y ddau glawdd fel lleoliad i'r ddwy genedl ddod ynghyd i drafod masnach a materion eraill, a'i bod yn drosedd farwol i Frython gael ei ganfod i'r dwyrain o glawdd Wat, 'and probably not very safe for a Saxon to venture on the West side of Claud-Offa'.⁵¹ Ond mae'n debyg mai cenadwri mwyaf gwerthfawr y llythyr hwn i Pennant, oedd ei drafodaeth ar John ap Ellis, a goffawyd â beddrod trawiadol yn eglwys Rhiwabon. Fe ymddengys fod Pennant wedi sylwi ar y beddrod hwn, a'r cerflun o fynach yn marchogaeth llew wedi dal ei lygad. Gallai Eyton ddadlennu

48. Ynghylch creu saith sir newydd, sir Ddinbych yn eu plith, o diriogaeth arglwyddiaethau'r Mers yn 1536–43, a'u dwyn ynghyd â'r chwe sir a sefydlwyd gan Statud Cymru 1284, gw. Geraint H. Jenkins, "'Taphy-land historians' and the Union of England and Wales 1536-2007", *Journal of Irish and Scottish Studies*, Volume 1: Issue 2: *Unions: Past – Present – Future* (Aberdeen: AHRC Centre for Irish and Scottish Studies, University of Aberdeen, [2008]), tt.1–27, yn enwedig t.4.

49. 'It is a common notion in the country, that the last [h.y. adleoli yr Hôb yn sir y Fflint] was effected by the interest of the earl of Derby, in order to have his Welsh estates in the same county; for at that time, the family was possessed of Hawarden, Molesdale, and this manor; which had been granted, on January 1st 1401, by Henry IV. to Sir John Stanley ... This manor of Hope is the only one possessed at present in Wales by the earl of Derby': Pennant, *A Tour in Wales 1770* [1773], I, t.404.

50. Kenrick Eyton at Thomas Pennant, 25 Mawrth 1777, yn llsg. LIGC 15424E, dim rhifau ffolio; a Pennant, *A Tour in Wales 1770* [1773], I, t.288.

51. Kenrick Eyton at Thomas Pennant, 25 Mawrth 1777, yn llsg. LIGC 15424E, dim rhifau ffolio; a cf. Philip Yorke at Thomas Pennant, 10 Ebrill 1777, yn llsg. LIGC 15423C, dim rhifau ffolio, LIAU (cyrchwyd 29 Mehefin 2024) <https://editions.curious-travellers.ac.uk/doc/1356>.

peth o hanes y rhai a goffawyd: adroddodd yn ei lythyr stori am daid a nain John ap Ellis, John Eyton hen o Riwabon a Gwenhwyfar ei wraig, a enillodd ei le yng nghyfrol gyntaf y *Teithiau*. Wedi bod yn briod am rai blynyddoedd, cafodd y ddau hyn ysgariad, eglurodd Eyton, cyn gwneud trefniadau wedyn i ailbriodi eto, a mab yn deillio o'r naill a'r llall o'r 'ddwy' briodas.⁵² Mewn adran ar eglwys Rhiwabon, rhoddodd Pennant drawsgrifiad o'r arysgrif ar y gofeb ynghyd â disgrifiad manwl ohoni yn ei chyfanrwydd, fel cofeb i Johannis ap Elis Eyton a'i wraig (a elwir yma yn Elizabeth), y ddau'n gorwedd, eu traed yn gorffwys ar gefn llew, a mynach yn eistedd ar gefn hwnnw, nodwedd nad oedd Eyton yn ei chofio ('I dont remember that I ever took notice of the monk riding upon a Lyon').⁵³ Gan egluro'r cyfiawnhad dros yr ysgariad fel 'some pretence of consanguinity', disgrifiodd Pennant sut y rhannwyd y stad rhwng y ddau fab, fel y dywedodd Eyton wrtho.⁵⁴ Mae'n bosibl iddo gael cymorth pellach o'r llawysgrif y soniodd John Lloyd amdani wrtho – 'Mr Eyton's Book' – er mwyn gwirio manylion yr hanes (cywiro'r enw Gwenhwyfar, er enghraifft). Fel ôl-nodyn i'w lythyr, cynigiodd Eyton anfon ei hen lyfr achau (sef y llawysgrif hon, mae'n bur debyg): 'Since this was wrote an opportunity has offerd of sending an old Pedgree book along with this letter which may be of use in ascertaining dates of some facts'.⁵⁵

Lai na mis yn ddiweddarach, ar 10 Ebrill 1777, roedd Eyton, ar y cyd â sgweier Erddig, yn un o ddau gymydog i Pennant a ysgrifennodd ato yn ymateb yn uniongyrchol a chwbl fwriadol i ddrafft o gyfrol gyntaf ei *Daith*. Pwyntiau byr yn ymdrin ag ystod o faterion yn ardaloedd yr Hôb, Wynnstay, plwyf Malpas (a rychwantai rannau o sir y Fflint yn ogystal â swydd Gaer), Bangor Is-coed, Bodfari, Caergwrle, a Marchwiel oedd gan Eyton wrth iddo ymateb i'r hyn oedd, mae'n amlwg, yn gopi drafft o'r *Teithiau* yr oedd Pennant ei hun wedi ei rannu ag ef.⁵⁶ Teimlai'r henwr mor anwybodus ac anfedrus ydoedd fel darlennydd; 'Ignoramus' meddai ynghylch un cwestiwn a godai. Efallai fod tipyn o ffug-wyleidd-dra yn honiadau Philip Yorke am dlodi ei ymatebion ef fel darlennydd, ar y llaw arall. Heb os, fe'i cyflyrwyd gan waith Pennant, ac roedd yn awyddus i weld rhagor ohono:

52. Kenrick Eyton at Thomas Pennant, 25 Mawrth 1777, yn llsg. LIGC 15424E, dim rhifau ffolio.

53. Pennant, *A Tour in Wales 1770* [1773], t.286; Kenrick Eyton at Thomas Pennant, 25 Mawrth 1777, yn llsg. LIGC 15424E, dim rhifau ffolio.

54. Pennant, *A Tour in Wales 1770* [1773], t.286.

55. Kenrick Eyton at Thomas Pennant, 25 Mawrth 1777, yn llsg. LIGC 15424E, dim rhifau ffolio.

56. Kenrick Eyton at Thomas Pennant, 10 Ebrill 1777, yn llsg. LIGC 15421C, rhif 63.

78 JOURNAL OF THE FLINTSHIRE HISTORICAL SOCIETY

Impatient to Receive another of your most Entertaining Volumes, I return you this, which I have gone through with the greatest pleasure to myself, but I fear without any use to you. — I [...] can pay you but with thanks, the poor man's Excheques. If [...] you this finds you at home, pray send me another book.⁵⁷

Dilynir y nodyn cryno hwn gan restr o sylwadau manwl wedi eu nodi yn ôl rhifau tudalennau a llinellau, a ffos Wat ymhlith y testunau sy'n hawlio sylw drachefn.⁵⁸

Cyfranwyr gwirfoddol ac o fyd diwydiant: Roger Kenyon a John Smalley

Os oedd Pennant yn cylchredeg ei *Daith* ar ffurf drafft ymhlith carfan ddethol o gyfeillion erbyn mis Ebrill 1777, nid oedd yn brin ychwaith o dderbyn gwybodaeth wirfoddol oddi wrth eraill a allai fod o gymorth iddo. Ar 3 Hydref y flwyddyn honno, ysgrifennodd ei gymydog Roger Kenyon, Cefn ger Wrecsam, ato, wedi clywed ei fod yn mynd i gyflwyno hanes gogledd Cymru i'r cyhoedd, ac y byddai'r gwaith yn cynnwys adroddiad ynghylch ei blwyf genedigol ef, Hanmer.⁵⁹ Cyflwynodd Kenyon drawsgrifiad o feddargraff i'w rieni ym mynwent eglwys Hanmer ac er na welodd Pennant yn dda i gynnwys hwn yn ei adroddiad, dengys llythyr arall a anfonodd Kenyon ychydig ddyddiau'n ddiweddarach fod Pennant wedi cysylltu ag ef i'w holi ynghylch hawliau pleidleisio ym mwrdeistrefi Fflint.⁶⁰ Law yn llaw â'i ymateb, addawodd Kenyon ddod â phapurau perthnasol oedd yn ei feddiant gydag ef i'r Sesiwn — digwyddiad ym mis Hydref a fyddai wedi hawlio ei bresenoldeb ef a Pennant ill dau fel bonheddwyr tiriog. Roedd yr ateb a gynigiodd Kenyon yn ei lythyr ynddo'i hun yn plesio Pennant, yn ôl pob golwg: mae ei adroddiad ynghylch hawl trigolion Overton-foreign a Knolton i anfon aelod i fwrdeistref Fflint, ac ynghylch yr hawl i bleidleisio mewn mannau eraill megis Hope, yn dyfynnu gwybodaeth Kenyon bron air am air.⁶¹

57. Philip Yorke at Thomas Pennant, 10 Ebrill 1777, yn llsg. LIGC 15423C, dim rhifau ffolio, LIAU (cyrchwyd 23 Ionawr 2025) <https://editions.curious travellers.ac.uk/doc/1356>.

58. Ibid.

59. R. Kenyon at Thomas Pennant, 3 Hydref 1777, yn llsg. LIGC 15422C. Ynghylch Kenyon (1735-c.1796), gw. LIAU (cyrchwyd 29 Mehefin 2024) https://www.ancestry.co.uk/genealogy/records/roger-kenyon-of-cefn-park-24-2scy0rq?geo_a=r&geo_s=us&geo_t=uk&geo_v=2.0.0&_ga=2.1746163.312781674.1603363556-2022012426.1576767757&o_iid=41013&o_lid=41013&o_sch=Web+Property.

60. R. Kenyon at Thomas Pennant, 6 Hydref 1777, yn llsg. LIGC 15422C.

61. Pennant, *A Tour in Wales 1770* [1773], I, t.227.

Dangosodd Pennant barodrzydd hefyd i edrych am gymorth y tu allan i gylch cymdeithasol bonheddig. Mae nodyn byr oddi wrth John Smalley o Dreffynnon ar 16 Awst 1777 yn ymateb i ymholiad penodol ynghylch ffynnon Gwenffrewi yn y dref.⁶² Yn ei *Daith*, canmolodd Pennant y ffynnon fel un o'r goreuon yn y deyrnas; nid oedd byth yn rhewi a phrin yn amrywio o ran cyfaint y ddŵr a ddaliai, boed sychder neu law mawr. Yn ôl arbrofion a chyfrifiadau a wnaed yn ddiweddar er gwybodaeth iddo, meddai, yr oedd yn taflu tuag un tunnelli ar hugain o ddŵr y munud.⁶³ Dywedodd Mr Smalley, yntau, mai'r ateb gorau i ymholiad Pennant y gallai Mr Morris (gweithiwr ar y safle, mae'n debyg) ei gynnig oedd ei fod yn credu bod y ffynnon a'r basn yn dal tua 54½ tunnelli o ddŵr a'r ffynnon yn taflu tua phedair tunnelli ar bymtheg o ddŵr y munud; ond yr oedd yn fwriad ganddo wneud arolwg arall ddydd Llun a rhoi gwybod beth fyddai'r canlyniad i Pennant, gan nad oedd yn fodlon ynghylch ddŵr gwastraff a gynhyrchwyd wrth wneud y mesur diwethaf. Efallai fod y ddŵr gwastraff hwn ym meddwl Pennant pan soniodd am y modd y newidiai ddŵr y ffynnon yn lliw meiddlyd yn dilyn glaw mawr.⁶⁴

Y cyfieithydd: Richard Williams


Yr enw olaf a ystyrir yma yng nghyd-destun paratodau Pennant tuag at gyhoeddi cyfrol gyntaf ei *Daith*, yw Richard Williams o Fron, yr Wyddgrug. Yn fab i reithor Penarlâg, o'r un enw ag yntau, aeth yn fyfyrwr i goleg Brasenose, Rhydychen yn 1765, ac yn y man dilynodd yn ôl troed ei dad i wasanaethu eglwys Lloegr fel rheithor, ym Machynlleth (1789–1805) ac yna yn Llanferres, sir Ddinbych (1805–11).⁶⁵

62. Mr Smalley at Thomas Pennant, 16 Awst 1777, yn llsg. LIGC 15423C, dim rhifau ffolio. Yn gynbartner i Richard Arkwright, symudodd John Smalley (1728–82) o swydd Derby i Dreffynnon yng nghanol y 1770au a sefydlu ffatri gotwm gyda'i fab, Christopher, yn Nyffryn Maes Glas. *Ex inf.* Paul Evans.

63. Pennant, *A Tour in Wales 1770* [1773], I, t.39.

64. 'After a violent fall of wet, it becomes discolored by a wheyey tinge': *ibid.*

65. Y *Bywgraffiadur Cymreig* d.e. Williams, Richard (1747–1811); Clergy of the Church of England Database d.e. Williams, Richard (1789–1811), LIAU (cyrchwyd 7 Mehefin 2024) <https://theclergydatabase.org.uk>; ac am ddarlun gan Moses Griffith o'i arfbais a'i gartref, Fron, yr Wyddgrug, gw. copi darluniedig Thomas Pennant o *A Tour in Wales*, LIAU (cyrchwyd 30 Medi 2024) <https://www.llyfrgell.cymru/darganfod-dysgu/arddangosfeydd-arlein/europeana-rise-of-literacy/llyfrau-teithio/tours-in-wales#?c=&m=&s=&cv=&xywh=-1204%2C-1%2C6614%2C5127>, cyf. 8, t.390, a Phlât 2.



Plates 2 & 3: Moses Griffith, Fron, Y Wyddgrug, ac arfbais teulu Williams, yng nghopi darluniedig Thomas Pennant o *A Tour in Wales*.
[Llyfrgell Genedlaethol Cymru]

Ychydig flynyddoedd wedi ei farwolaeth, cofnodwyd yn y *Cambro-Briton* ei allu fel cyfieithydd: gallai droi ei law at gyfieithu o'r Lladin i'r Saesneg ddeunydd megis trasiedi Seneca, *Medea*, neu drosi i'r iaith Ladin destunau Saesneg a Groeg. At hynny, roedd yn adnabyddus fel cyfieithydd deunydd Cymraeg i'r Saesneg ar ran Pennant ac Edward Jones (Bardd y Brenin; 1752–1824).⁶⁶ Mae gohebiaeth a gadwyd ynghyd â thystiolaeth gweithiau printiedig yn dangos bod rhan flaenllaw ac unigryw i Williams fel bardd yng ngyrfa Pennant. Yn y lle cyntaf, roedd ei allu i drin a thrafod deunydd Lladin, iaith a oedd mor fyw i Pennant drwy ei addysg glasurol, yn dwyn y ddau ynghyd o fewn cloriau'r *Teithiau* yng Nghymru a thu hwnt i hynny. Mae'r ffaith i Williams gyfansoddi cerdd wreiddiol yn Lladin i anrhydeddu Pennant yn 1775, gan fynegi'r gobaiith y byddai ei gyfaill yn ei chyhoeddi, yn fesur o'r rhwyddineb cyfforddus a deimlai'r ddau yn yr iaith hon ac yn arferion llawryfol ei thraddodiadau llenyddol.⁶⁷ O droi at y *Teithiau*, gwelwn i Williams gyfieithu deunydd Clasurol a chanoloesol o'r Lladin ar ran Pennant, tair enghraifft ar gyfer y gyfrol gyntaf. Ar 17 Awst 1777, anfonodd ddau gyfieithiad, gan nodi ei fod yn ailwampio ei fersiynau o ddwy gerdd arall (nas

66. *Cambro-Briton*, I (Medi 1819–Awst 1820), t.263; dyfynnir yn E. W. Jones, 'Williams of Fron – Cleric and Satirist', *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, (1965–6), 13, rhif 4, tt.377–96, yn enwedig t.384.

67. Richard Williams at Thomas Pennant, 13 Tachwedd 1775, yn ASSW, CR 2017/TP24/4.

enwir).⁶⁸ Cynigiodd ddau fersiwn o epigram merch y brenin Alfred, Ethelfleda, o *Historia Anglorum* yr hanesydd Eingl-Normanaid Henry o Huntingdon (c.1088–c.1157), a oedd wedi hawlio sylw edmygol Pennant yn ei drafodaeth ar iarllaeth Mersia.⁶⁹ Yn dilyn marwolaeth ei gŵr yn 912, aeth Ethelfleda ati i reoli ei diriogaeth ac i arwain y fyddin, gan ennill cymaint o fri fel nad oedd y teitlau benywaidd ‘Arglwyddes’ neu ‘Frenhines’ yn ddigonol ar ei chyfer: rhaid oedd ei galw’n ‘Arglwydd’ a ‘Brenin’ yn ogystal. I gyfleu gwrhydri ei dewrder, daeth Richard Williams â’i gyfieithiad o epigram yr *Historia Anglorum* i ben â disgrifiad o Ethelfleda fel ‘illustrious Amazon’.⁷⁰

Cawn olwg ar ddulliau Williams fel cyfieithydd drwy’r llythyr sy’n anfon y deunydd hwn at Pennant. Yn un peth, cynigiodd ddau fersiwn o’r gerdd i Ethelfleda, yr ail yn rhagori, tybiai, gan fod nifer y llinellau ynddo yn cyfateb i’r hyn a gaed yn y gwreiddiol. Chwynnodd a chywasgodd linellau o’r fersiwn hwnnw gan greu cerdd epigramataidd rymus a bwysleisiai’n amlycach arwriaeth wrywaidd Ethelfleda drwy gyfnewid ‘manly Name’ am ‘Hero’s name’ a hepgor yn llwyr y term benywaidd ‘Heroine’, er enghraifft. Yn ail, cyfaddefodd Williams yn y llythyr hwn, gan gyfeirio at ei gerdd i Ethelfleda ac un arall sy’n cyfieithu hanes marwolaeth yr arwr Llychlynnaidd Agnerus, o waith yr hanesydd Danaidd Saxo Grammaticus (c.1150–c.1220), nad cyfieithiadau llythrennol oeddynt: ‘I cannot say they are quite literally ~~done~~ rendered’, meddai.⁷¹ Yn achos y gerdd i Agnerus, un hepgoriad amlwg ond annodweddiadol yng ngwaith Williams (fel y gwelir ymhellach isod) yw’r ffaith na ddefnyddiodd gyfeiriad y bardd at Ercwlff (Hercules) sydd yn agor y testun Lladin ac yn rhoi man cychwyn trawiadol i’r ymgyrch i ddyrchafu’r arwr Llychlynnaidd. Am ‘*Herculè nemo illo visus mihi fortior unquam*’ (yn llythrennol, ‘Wnaeth neb erioed ymddangos i mi yn gryfach nag Ercwlff’ / ‘No one ever seemed to me stronger than that Hercules’), cynigiodd Williams ‘Ne’er did my eyes such Fortitude behold’, geiriad a newidiwyd yn y testun print i ‘Ne’er did I yet such fortitude behold!’.⁷² Ond os hepgorwyd Ercwlff, roedd modd dilysu’r cyfieithiad drwy ddefnyddio enw priod arall nas gwelir yn y dyfyniad gwreiddiol: ychwanegodd Williams at yr ‘Elysium’ Clasurol enw ‘neuadd Odin’, cartref duw rhyfel a marwolaeth mewn mytholeg Norse, a’r fan lle dygid eneidiau’r meirw.

68. Richard Williams at Thomas Pennant, 17 Awst 1777, yn llsg. LIGC 15423C, dim rhifau ffolio.

69. Pennant, *A Tour in Wales 1770* [1773], I, tt.120–2.

70. Richard Williams at Thomas Pennant, 17 Awst 1777.

71. Richard Williams at Thomas Pennant, 17 Awst 1777, yn llsg. LIGC 15423C, dim rhifau ffolio.

72. Pennant, *A Tour in Wales 1770* [1773], I, t.277.

82 JOURNAL OF THE FLINTSHIRE HISTORICAL SOCIETY

Mae'n ychwanegiad priodol yng nghyd-destun trafodaeth Pennant, sy'n rhan o'i ymdriniaeth â Chastell y Waun ar y ffin rhwng siroedd Dinbych ac Amwythig. Gwrthgyferbynnu llwfrdra cyd-wladwyr diweddar (aelodau o deuluoedd cynhennus Kyffin a drafodwyd gan Syr John Wynn yn ei lawysgrif ar hanes teulu Gwydir) a dewrder digamsyniol y Derwyddon oedd y bwriad.⁷³ Yn niffyg deunydd mydryddol Cymraeg ar y thema, fe droes Pennant at yr Agnerus Llychlynnaidd a disgrifiad Saxo Grammaticus o ddiwedd eofn yr arwr hwnnw er mwyn cyfleu dirmyg cyndeidiau'r Brytaniaid, hwythau, o farwolaeth.

Daeth llenyddiaeth Glasurol i'r fei drachefn wrth i'r *Teithiau* droi eu sylw at ddulliau claddu hynafol ('Antient Internment'), mewn adran a gyflwynir ynghlwm wrth drafodaeth dopograffig o bentref Llanarmon. Roedd plwyf Llanarmon yn llawn o garneddau angladdol, ac adroddodd Pennant hanes y profiad a gawsai o fod yn bresennol pan ddadorchuddiwyd un o'r rhain:

Sepulchral tumuli are very frequent in this parish. I was present at the opening of one, composed of loose stones and earth, covered with a layer of soil about two feet thick, and over that a coat of verdant turf. In the course of our search, were discovered, towards the middle of the tumulus, several urns made of sun-burnt clay ...⁷⁴

A chynnwrf yr achlysur wedi ei dymheru gan benderfyniad Pennant i gynnig adroddiad gwyddonol o'r darganfyddiad, rhoddodd ddisgrifiad manwl o leoliad yr wrnau hyn y tu mewn i'r garnedd, gan nodi mai llwch y corff a losgwyd fel rhan o ddefod gladdu oedd y tu mewn iddynt, gyda gweddillion rhai o'r esgyrn na ddifodwyd gan y tân – yn esgyrn y forddwyd, y fraich, a hyd yn oed benglog — yn gymysg â cherrig mân o'u cwmpas. Nid ymhelaethodd ar ei ddisgrifiad o'r cwmni oedd yn bresennol ar yr achlysur, fodd bynnag, nac felly ar effaith ymddygiad y rhai a oedd ynglŷn â'r gwaith ar hyd a lled y darganfyddiad. I gael gwell dealltwriaeth o hynny, rhaid troi at John Lloyd, Caerwys, sy'n disgrifio sut y cyrhaeddodd ef a Mr Pennant safle'r cloddiad pan oedd un wrn eisoes wedi ei

73. Mae Pennant yn tynnu'r stori o gofnod lliwgar Syr John Wynn o fywyd a gweithgareddau ei deulu, ac Ievan (neu Ieuan) ap Robert ap Meredith, perthynas i deulu Kyffin, un o arwyr anystywallt y gorffennol 'hwn' [h.y. 'y gorffennol hwn'. Gw. D. Barrington (gol.), *The History of the Gwedir Family* (London: B. White, 1770), tt.104–8; ac am ddisgrifiad o faintoli trawiadol Ieuan, J. Wynn, *The History of the Gwydir Family and Memoirs*, gol. J. G. Jones (Llandysul, 1990), t.xxviii. Adlewyrchodd Pennant yn sylweddol dystiolaeth Syr John Wynn yn Barrington, *History of the Gwedir Family*, tt.107–8, ac mae'n cydnabod hynny mewn nodyn ('Gwydir family, 107'), yn *A Tour in Wales 1770* [1773], I, t.276.

74. Ibid., t.381.

ddinistrio.⁷⁵ Nid yw'n glir oddi wrth gyfeiriad Lloyd at 'gyflogi pobl i agor gweddillion carnedd mewn cae o'r enw Kefrydd' ('Employed people to open the remainder of a tumulus in a field called Kefrydd') ai Pennant oedd wedi cyfarwyddo'r gwaith ond mae'n ymddangos nad oedd gan berchennog y tir fawr o ddiddordeb yng ngwerth hanesyddol yr hyn a ganfuwyd, gan iddo ddefnyddio enghreifftiau eraill o wrnau ac esgyrn o'r gloddfa fel compost ar ei dir. I Pennant, awdur y *Teithiau*, roedd y darganfyddiad byw hwn yn fachyn i grogi deunydd helaethach ynghylch arferion claddu hynafol mewn adran saith tudalen o hyd o dan y pennawd 'Antient Internment', lle'r ymwelir ag olion cynhanesyddol Clasurol, Derwyddol a Llychlynnaidd. Rhan nodedig o'r adroddiad, tua'i ddiwedd, yw greddf Pennant i ddefnyddio tystiolaeth fydryddol Glasurol i ddod â chladd-edigaethau a'u holl arwyddocâd i gymdeithas ddynol yn fyw i'w ddarllenydd. Dyfynna gyfieithiadau adnabyddus Alexander Pope o hanes angladd Patroclus yn yr *Iliad* a Christopher Pitt o gladdedigaethau'r ddwy garfan gynhennus, yr Eidalwyr o Toscano a'r Troewyr, yn *Aeneid* Fyrsil.⁷⁶ Troes at ei gyfaill o'r Wyddgrug, Richard Williams, am fersiwn Saesneg o eiriau'r bardd Rhufeinig Tibullus (c.55 CC–c.19 CC) mewn cerdd sydd yn disgrifio ofnau'r bardd, pan oedd yn glaf ymhell oddi cartref yn Phaeacia, na chât menywod pwysig ei fywyd — ei fam, ei chwaer, a'i gariad, Delia — sicrhau y cesglid ei esgyrn a'i lwch ac y galerid amdano pe deuai Marwolaeth i'w hawlio.⁷⁷ Fel y ddau fardd arall — Pope a Pitt — defnyddiodd Williams gwpledi arwrol i drosi, yn yr achos hwn, gwpledi 'elegiac' y Lladin, ond mae rhai o'i linellau ef yn herciog (gan gynnwys y llinell gyntaf, lle mae unwaith eto yn hepgor enw allweddol Phaeacia, lleoliad y gerdd, gan ei gynnwys mewn nodyn yn unig). Ni lwyddodd y tro hwn, ychwaith, i gael cyfatebiaeth rhwng nifer llinellau'r gwreiddiol a'r cyfieithiad, ei nod yn achos y gerdd i Ethelfleda, fel y gwelwyd.

Yn ogystal â'r dyfyniadau hyn o gerddi Lladin, ceir dau gyfieithiad o gerddi

75. Trafodir y darganfyddiad, gan ddyfynnu adroddiad John Lloyd, yn Evans, 'Reverend John Lloyd', 120; ac ymhellach yn S. J. Briggs, 'Thomas Pennant: Some Working Practices of an Archaeological Travel Writer in Late Eighteenth-Century Britain', yn M-A Constantine a N. Leask (goln), *Enlightenment Travel and British Identities: Thomas Pennant's Tours in Scotland and Wales* (London, 2017), tt.41–63, yn enwedig tt.53–4.

76. Pennant, *A Tour in Wales 1770* [1773], I, tt.383, 387; ODNB d.e. Pope, Alexander (1688–1744), ynghylch prosiect chwe blynedd Pope i gyfieithu'r *Iliad*; ac am gyfieithiad Pitt, LIAU (cyrchwyd 30 Mehefin 2024) <https://www.rct.uk/collection/1055033/the-works-of-virgil-translated-by-christopher-pitt-joseph-warton-v-4>.

77. Pennant, *A Tour in Wales 1770* [1773], I, t.386.

84 JOURNAL OF THE FLINTSHIRE HISTORICAL SOCIETY

Cymraeg Canol yng nghyfrol gyntaf y *Teithiau*. Fel y nododd Pennant yn ei ragair, roedd yn hynod ddiolchgar i Williams 'for his poetical translations, marked R. W. and for the elegant version of the ode on Owen Glyndwr, to which that mark is omitted'.⁷⁸ Cyfieithiad o gerdd o waith Gruffudd Llwyd oedd yr un i Glyndŵr y cyfeirir ati yma; yn nhestun y gyfrol, fe'i disgrifiwyd ymhellach gan Pennant fel gwaith wedi ei aralleirio'n ddymunol gan fardd o'r flwyddyn 1773 ('agreeably paraphrased by a bard of 1773').⁷⁹ O ystyried hyn, efallai nad oedd ei gyfieithiad o gywydd Gruffudd Llwyd ymhlith y rhai y bu Williams yn eu hailwampio ym mis Awst 1777, pan anfonodd ei gerddi Lladin at Pennant.⁸⁰ Cerdd Gymraeg arall y gyfrol gyntaf yw'r gerdd gan Hywel ab Einion Lygliw i Myfanwy Fychan o Ddinas Brân, 'which an ingenious friend was pleased to favor me with in an English dress', meddai Pennant.⁸¹ Yma, troes Williams oddi wrth batrwm mydryddol sefydledig beirdd Saesneg wrth drosi chwebannau dactylaidd y traddodiad clasurol yn gwpledi arwrol Saesneg at ddewisiadau mydryddol i gydweddu â mesur cywydd unodl union cerdd Gruffudd Llwyd ac ag awdl aml-fydr Hywel ab Einion Lygliw. Yn groes i arweiniad y cerddi Cymraeg, yn y cyfieithiadau, yr awdl sy'n cael ei chyflwyno yn y wedd fwyaf rheolaidd (cyfres o gwpledi iambig pedwar ban), tra bo'r cywydd yn ymddangos mewn naw pennill, lle caiff hyd y llinellau a phatrwm yr odl eu hamrywio. Mae'r afreoleidd-dra hwn yn fersiwn Williams o gywydd Gruffudd Llwyd yn cael ei ddefnyddio i gyfleu tensiynau perthynas y bardd â'i noddwr, Glyndŵr, ynghyd â chynnwrf y brwydro a dathliadau'r llwyddiant a goffeir. Gan dynnu ar gyfeiriadaeth y gwreiddiol, gall Williams wyro dealltwriaeth o amgylchiadau'r canu i gyfeiriad anghydfod milwrol rhwng Brython (neu Brydeiniwr) a Sacson: trengi drwy law Owain ab Urien oedd ffawd Sacsoniaid yr Hen Ogledd a chydiwyd yn y term 'Sacson' (nad yw i'w weld yn y gerdd wreiddiol) er mwyn gosod gwrhydri Glyndŵr o fewn y traddodiad gwladgarol anwleidyddol a fabwysiadwyd gan Pennant yn ei *Deithiau*.⁸² Newyddbeth arall gan Williams oedd

78. Ibid., t.iii.

79. Ibid., tt.311–15.

80. Gw. y cyfeiriad uchod at ailwampio yn Richard Williams at Thomas Pennant, 17 Awst 1777; a fersiwn Richard Williams yn Pennant, *A Tour in Wales 1770* [1773], I, tt.311–15.

81. Ibid., tt.281–4; dyfyniad ar t.281.

82. Gw. D. Johnston, 'Shaping a Heroic Life', yn Constantine a Leask (goln), *Enlightenment Travel and British Identities*, yn enwedig tt.114, 116. Sylwer bod Williams yn galw Owain ab Urien wrth enw ei dad, er mwyn osgoi unrhyw gystadleuaeth am enw'r arwr mwy diweddar, Owain Glyndŵr, mae'n bur debyg.

enwi Harri [IV] fel gelyn Glyndŵr yn y gerdd hon, dewis cwbl anhanesyddol, fel y dengys trafodaethau modern arni, sy'n gosod achlysur ei chanu yn 1384, pan deyrnasid ar Loegr a Chymru gan Richard II.⁸³ Enwir Harri ddwywaith gan Williams: fel un sy'n herio Glyndŵr o hirbell ar ddechrau'r gerdd, ac fel un sy'n wylo o weld ei filwyr wedi eu goresgyn gan farwolaeth dragywydd ar y diwedd (penillion 2 a 9). Darllenwyd y pennill olaf gan Dafydd Johnston fel proffwydoliaeth o lwyddiannau i ddod, darlleniad a gefnogir gan anwadalrwydd y defnydd o amser y ferf ym mhenillion 3 i 8 — yn orffennol, presennol, a dyfodol — sy'n ei gwneud yn anodd dehongli'r gerdd fel adroddiad cronolegol o weithgarwch Glyndŵr.⁸⁴ O ddilyn arweiniad Johnston, gwelwn fod yr ysfa i ganolbwyntio ar y dyfodol yn cymryd lle'r elfen naratif yn y gerdd wreiddiol. Caiff cymeriad yr 'herod', gyda'i adroddiad o lwyddiannau Glyndŵr yn yr Alban, ei gyfnewid am gyfeiriad mwyr niwlog at 'enwogrwydd croch ('Loud fame') yn fersiwn Williams (pennill 8), cyn cloi gyda darlun o foliant yr arwr gan y beirdd Cymreig ('Cambrian bards').⁸⁵

Nid fersiwn Williams oedd yr ymgais gyntaf i gyfieithu'r gerdd hon am Owain Glyndŵr. Ymddangosodd cyfieithiad rhyddieithol ohoni mewn gwaith dienw, a briodolwyd wedi ei farwolaeth i John Thomas (1736-69), clergwr ac ysgolhaig galluog a gydoesai â John Lloyd, Caerwys, yng Ngholeg Iesu, Rhydychen.⁸⁶ Os rhoddwn goel ar honiad Pennant i Williams greu'r fersiwn hwn o gerdd Gruffudd Llwyd yn 1773, ni fyddai cyfieithiad rhyddieithol John Thomas ohoni wedi bod ar gael iddo, yn argraffedig o leiaf, ond mae'r ddibyniaeth drom ar eiriad y cyfieithiad yn awgrymu iddo wneud cryn ddefnydd ohono. Thomas piau'r deongliadau llythrennol o *hwyl/hwyllo*;⁸⁷ a cheir hefyd adleisiau niferus o eirfa neilltuol (e.e. 'illustrious lord' (Williams) | 'Thou illustrious Lord' (Thomas));⁸⁸ 'How terrible thy

83. Gw. Rh. Ifans (gol.), *Gwaith Gruffudd Llwyd a'r Llygliwiaid Eraill* (Aberystwyth, 2000), t.251.

84. Gw. Johnston, 'Shaping a Heroic Life', t.109.

85. Ifans, *Gwaith Gruffudd Llwyd a'r Llygliwiaid Eraill*, t.135, ll. 80; 'messenger' yn John Thomas, *A History of the Island of Anglesey: From its first invasion by the Romans, until finally acceded to the crown of England* (London: J. Dodsley, 1775), t.88; a GPC d.g. herod, herodr.

86. Gw. *Y Bywgraffiadur Cymreig* d.e. Thomas, John (1736-1769).

87. Ifans, *Gwaith Gruffudd Llwyd a'r Llygliwiaid Eraill*, tt.135-6, 143-5, llau. 39, 74, 85. Mae diweddariadau Ifans yn cysylltu hwyl/hwyllo â'r ystyr 'cyrch' ym mhob achos. Gw. GPC d.g. hwyl,¹ 2. Arweinir Williams, ar y llaw arall, gan gyfieithiadau Thomas, *A History of the Island of Anglesey*, tt.86, 88, sy'n rhoi darlun o Glyndŵr yn hwyllo'r môr.

88. Mae gweddill y dyfyniadau o'r fersiynau yn y frawddeg hon yn gosod fersiwn Williams yn gyntaf gyda geiriad Thomas yn dilyn.

ashen spear' | 'thy ashen spear terrible in battle'; 'Meet emblem of a two-edg'd sword' | 'equal to a two-edged sword'; 'Steer thy swift ships to Albion's coast' | 'steer the ships to Britain'; 'Thy robes are white as driven snow' | 'clad in garments as white as flakes of driven snow'; 'Stubborn as steel thy nervous chest' | 'Thou art severe and undaunted like steel'; 'An hero's toils' | 'your successful toils'; 'Thy noontide blaze' | 'the terrible battle fought at noon'). Williams sy'n gyfrifol am gynnig y gair Saesneg 'bower' i ddisgrifio'r lleoliad lle y byddai'r bardd yn ymbresenoli yng nghwmni Glyndŵr; ar gyfer *llys* yn y gerdd wreiddiol, rhoddodd John Thomas 'thy royal palace' ond rhoes Williams 'bower', gyda'i gynodiadau o glydwch cartrefol a threiddiad homoerotig, hyd yn oed, er mwyn cyfleu awgrym Gruffudd Llwyd ynghylch y modd y cyflawnodd anghwrteisi tuag at Glyndŵr, o bosibl drwy gymryd ei haelioni'n ganiataol.⁸⁹

Adlewyrchir nodweddion perthynas y bardd a'i noddwr mewn troadau hyd yn oed yn fwy cymhleth mewn cerdd i Myfanwy Fychan gan un arall o dylwyth y Llygliwiaid, ewythr i Gruffudd Llwyd, sef Hywel ab Einion Lygliw.⁹⁰ Drachefn, yr oedd cyfieithiad rhyddieithol ar gael i Richard Williams i'w roi ar ben y ffordd â dehongli testun Cymraeg Canol pur astrus, diolch y tro hwn i gasgliad Evan Evans (Ieuan Fardd; 1731–89), *Some Specimens of the Antient Welsh Bards* (1764). Mae adleisio'r testun rhyddiaith cynharach yn nodwedd ar waith Williams yma hefyd, wrth iddo atgynhyrchu swyn caethiwus harddwch Morfudd dros deimladau'r bardd ('Divine enchantress' (Williams) | 'thou that hast enchanted me' (Evans); 'O thou that shinest like the sky' | 'O thou that shinest like the heavens'; 'in golden verse' (Williams ac Evans); 'Pensive, as Trystan, did I speed / To Brân, upon a stately steed' | 'The well-fed steed carried me pensive like Trystan, and great was his speed to reach the golden summit of Bran'; 'Oh fairer than the cherry's bloom' | 'O thou with the countenance of cherry-flower bloom'; 'O, lovely flow'r of Trevor's race' | 'O thou beautiful flower descended from Trefor'; 'Bright rival of the mid-day sun' | 'O thou that shinest like the meridian sun'; 'Shou'dst thou demand thy lover's eyes, / Gladly to thee I'd sacrifice / My useless sight' | 'Shouldst thou demand my two eyes, I would part with them on thy account, such is the pain I suffer'; 'scarlet robes' (Williams ac Evans); 'Not half so fine the spider's thread, / That glitters on

89. Cyfieithir *f'anfoes* y gwreiddiol fel 'disrespectful' gan Thomas. Gw. Ifans, *Gwaith Gruffudd Llwyd a'r Llygliwiaid Eraill*, tt.134, 143, llau. 11–14; a Thomas, *A History of the Island of Anglesey*, t.85.

90. Gw. Ifans, *Gwaith Gruffudd Llwyd a'r Llygliwiaid Eraill*, tt.3, 76.

the dewy mead' | 'O thou that shinest like the fine spider's webs on the grass in a summer's day'; 'O, fairer than the flowers adorning / The hawthorn in a summer's morning' | 'O thou whose countenance is as bright as the flowers of the haw-thorn'). At y defnydd o enghreifftiau o'r fath yn nhestun y gerdd, gwelir Williams yn tynnu ar nodiadau Evans ynghylch enwau priod, gan fydryddu'r deunydd, ei atgynhyrchu yn ei nodiadau ei hun, a hyd yn oed ychwanegu at y dopograffeg. Cyfeiriodd at y nodyn ynghylch 'Aran, the name of two high mountains in Merionethshire', gan nodi yma ei ddyled i gasgliad Evans; ac atgynhyrchodd y camddarlenniad o arwyddocâd yr enw Alban ('It seems that the Bard rode upon a Scotch steed', meddai Evans).⁹¹ Ymhelaethodd ar gyfeiriad fersiwn Evans at 'liw symudiad ton welw' (diweddariad Rhiannon Ifans o *liw ton hwyliad—welw*), 'O thou that hast the whiteness of the curling waves', gyda chyfeiriad, digon priodol yn ddaeryddol, at afon Dyfrdwy ('White as *Dwrdwy's* curling wave'), nas enwir naill ai gan Evans na gan Hywel ab Einion Lygliw.⁹² Mae pwysleisio'r topograffig yn y gerdd hon oll yn atgyfnerthu ei pherthnasedd i *Deithiau* Pennant, ond efallai mai ymyrraeth bennaf Williams yn y testun yw cychwyn ar broses o droi'r amgylchiadau cynhennus rhwng bardd a noddwraig freintiedig sy'n gefndir i'r gerdd yn sail i'r math o stori garu a ddatblygwyd gan Ceiriog o'r deunydd hwn yn ei rieingerdd, 'Myfanwy Fychan o Gastell Dinas Brân'.⁹³ Mae'r modd yr enwir 'Myfanwy' a 'faithful Howel' mor gyson, a'r nodyn estynedig a roes Williams i egluro perthynas Creirwy a Garwy, sy'n eu huniaethu â 'Syr Gareth' a 'Damoysell Lynet' a unwyd mewn priodas er gwaethaf pob rhwystr, fel pe bai'n amneidio i gyfeiriad yr Hywel a'r Myfanwy a anfarwolwyd yn ddiweddarach; yn wir, roedd Ceiriog yn gwbl ymwybodol o'r ddyled, gan iddo gydnabod cyfieithiad Williams (nid un Evans) yn ei ragair i'r gerdd pan gyhoeddwyd hi.⁹⁴

Casgliad

Mae'r drafodaeth hon wedi tynnu sylw at yr ystod o ddynion o sir y Fflint a rhannau dwyreiniol sir Ddinbych a gyfrannodd at gyfrol gyntaf *Teithiau* Pennant ac at natur

91. Awgrym Ifans yw mai digwyddiad hanesyddol, cyfeiriad o bosibl at drechu'r Albanwyr ym mrwydr Nevill's Cross, 1346, a gyfrif am y cyfeiriad at yr Alban fel lleoliad daearyddol yn y gerdd. Gw. *ibid.*, tt.12 ac 17, ll. 31.

92. *Ibid.*, tt.12 ac 17, ll. 57.

93. Gw. Ff. M. Jones, *Thomas Pennant: Cysylltiadau Cymreig* (Gwasg Prifysgol Cymru, Caerdydd), pennod 6.

94. J. C. Hughes, 'Myfanwy Fychan', *Oriau'r Hwyr* (Rhuthyn, [1860]), tt.15–27, yn enwedig t.16n.

88 JOURNAL OF THE FLINTSHIRE HISTORICAL SOCIETY

amrywiol y cymorth a estynnwyd ganddynt a'r modd y daethant yn rhan o gam cyntaf prosiect Cymreig Pennant wrth iddo fagu cyflymder yn ystod 1777 ac 1778. Aelodau o'r bonedd, fel Pennant ei hun, oedd llawer ohonynt, a rannai ddiddordeb cyffredin eu dosbarth yn eu tras ac a welai yng ngweithgarwch sgweier Downing gynllun canmoladwy ('laudable design', ys dywedodd Kenrick Eyton). Y tu hwnt i ddiddordebau teuluol, roedd trafod newidiadau a datblygiadau yn hanes gwleidyddol eu tiriogaeth yng ngogledd-ddwyrain Cymru yn bwysig i'r gwŷr hyn. Roedd Philip Yorke yn hynod ymwybodol o'r effaith a gafodd deddfau uno Harri VIII ar ffiniau mewnol Cymru: 'Denbighshire and Montgomeryshire being taken from the Baronies Marchers, were added to these 4 anct. Shires by the incorporating Act of H: 8', cynigiodd mewn nodyn ar ddrafft o'r gyfrol, gan ddynodi pwysigrwydd dealltwriaeth o'r ddau gam hanesyddol allweddol yn ffurfiant unedau gweinyddol Cymru, sef Statud Cymru 1284 a Deddfau Uno 1536–43, a pherthynas yr unedau hynny â'r drefn Normanaidd yn y Mers.⁹⁵ Gwyddai Kenrick Eyton, yntau, am yr ymrafael yn siroedd Dinbych a'r Fflint am ddynodiad tiriogaeth uchelwyr yr ardal fwyaf dwyreiniol, Maelor Saesneg a'i chyffiniau. At hyn, ymunodd y ddeuddyn hyn â Pennant i geisio datgelu cyfrinachau'r cloddiau cyfochrog, Clawdd Wat a'i gymar mwy enwog, Clawdd Offa, a redai ar hyd y goror rhwng Cymru a Lloegr, a rhwng Brython a Sacson. Roedd yr hynafgwr Eyton yn amlwg yn ymwybodol o'r traddodiadau ynglŷn â'r cloddiau a ddadlennwyd gan Yorke gerbron Pennant ond mae yr un mor amlwg i ddiddordeb Pennant yn y mater ei ysgogi ef hefyd i chwilota a dysgu ymhellach. Wedi adrodd yr hyn a wyddai am elfennau heddychol a chosbol gweithgaredd yn ardal y cloddiau, cynigiodd fynd i dyrchu ymhellach er mwyn canfod rhagor am glawdd Wat ('I shall endeavour to get better intelligence of Wat').⁹⁶ Yn hyn o beth, mae'n cynnig enghraifft wirioneddol o'r math o gydymwneud rhwng grŵp bychan o hynafiaethwyr ar destun y cloddiau yn y 1770au canol a ganfu Mary-Ann Constantine ('the dykes had become a topic of conversation amongst a small, and geographically close, group of antiquarians in the two or three years leading up to the publication of Pennant's first *Tour*').⁹⁷

Tanlinellir arwyddocâd Yorke ac Eyton i Pennant fel awdur yn y modd y rhannwyd copïau drafft o'r gyfrol â nhw gan ofyn am eu sylwadau. Yn y dystiolaeth

95. Philip Yorke at Thomas Pennant, 10 Ebrill 1777, yn llsg. LIGC 15423C, dim rhifau ffolio, LIAU (cyrchwyd 29 Mehefin 2024), <https://editions.curiousstravellers.ac.uk/doc/1356>.

96. Kenrick Eyton at Thomas Pennant, 25 Mawrth 1777, yn llsg. LIGC 15424E, dim rhifau ffolio.

97. Constantine, *Curious Travellers: Writing the Welsh Tour*, t.64.

ohebol a orosodd, gallwn weld enghreifftiau penodol o effaith eu hymatebion hwy ar y gwaith terfynol. Mae Eyton, er enghraifft, yn bresennol yng nghefnidir adran estynedig o'r *Daith* yn ardal Rhiwabon sy'n rhoi sylw i gerflun i'w hynafiaid, John ab Ellis Eyton a'i wraig yn eglwys y Santes Fair; i'r plasty cyfagos, Wynnstay, a leolwyd ar glawdd Wat; ac i'r glyn hardd, Nant y Bele sy'n haeddu ymweliad gan bob teithiwr, meddai Pennant ('merits a visit from every traveller').⁹⁸ Manteisiodd Pennant yn yr achos hwn nid yn unig ar sylw Eyton fel darlennydd ond hefyd ar ddeunydd llawysgrifol y gwyddom i Eyton ei rannu ag ef, ac iddo'i gydnabod mewn troednodiadau yn cyfeirio at 'Eyton Pedigree'.⁹⁹

Roedd swyddogaeth unigryw i Richard Williams, Fron, ym mharatodau Pennant ar gyfer cyhoeddi'r *Teithiau*. Iddo ef y rhoddwyd y cyfrifoldeb o sefyll gyfuwch â dau gyfieithydd adnabyddus o destunau Clasurol i'r Saesneg, Alexander Pope a Christopher Pitt, mewn dyfyniadau o gerddi Lladin Clasurol a chanoloesol; a gallai, at hyn, droi ei law at drosi cerddi Cymraeg o waith dwy genhedlaeth o deulu'r Llygliwiaid a hanai o siroedd Meirionnydd a Maldwyn – Hywel ab Einion Lygliw a'i nai, Gruffudd Llwyd.¹⁰⁰ Mae'r dystiolaeth a archwiliwyd yn yr ysgrif hon yn awgrymu dibyniaeth gref o du Williams ar gyfieithwyr rhyddieithol ac ysgolheigaidd a'i rhagflaenodd yn ei drosiadau o'r cerddi Cymraeg, fodd bynnag. Ceir benthyca helaeth o eirfa a deongliadau Ieuan Fardd a John Thomas yn ei fersiynau mydryddol o waith y Llygliwiaid, sy'n awgrymu mai o'r Saesneg y trosodd, fwy na thebyg, yn hytrach nag o'r fersiynau Cymraeg gwreiddiol. Hawdd deall ei gyfiawnhad dros hynny. Pan aeth John Rhys ati i gyfieithu *Teithiau* Pennant yn eu cyfanrwydd i'r Gymraeg, torrodd ar ei arfer o fynd yn ôl at destun gwreiddiol y cerddi Cymraeg Canol yn achos un ohonynt, sef awdl Hywel ab Einion i Myfanwy, gan farnu bod 'Cymraeg yr oes hono ... mor dywyll a Lladin i'r oes bresenol' ac mai 'gwell oedd rhoddi yr aralleiriad uchod o honi yma, yn lle y cyfansoddiad gwreiddiol'.¹⁰¹ Cyfieithiad o gerdd Williams yw'r 'aralleiriad' a welir yn *Teithiau* yn

98. Pennant, *A Tour in Wales 1770* [1773], I, tt.286–8, dyfyniad ar t.288. Am sylw Eyton i'r materion hyn, gw. Kenrick Eyton at Thomas Pennant, 10 Ebrill 1777, yn llsg. LIGC 15421C, rhif 63.

99. Kenrick Eyton at Thomas Pennant, 25 Mawrth 1777, yn llsg. LIGC 15424E, dim rhifau ffolio; Pennant, *A Tour in Wales 1770* [1773], I, tt.286, 288.

100. Gw. Ifans, *Gwaith Gruffudd Llwyd a'r Llygliwiaid Eraill*, tt.3, 75.

101. Gw. J. Rhys (cyf.), *Hynafiaethau Cymreig. Teithiau yn Nghymru, sef Cyfieithiad o'r "Tours in Wales," gan Thomas Pennant, Ysw.* (Caernarfon: H. Humphreys, d.d.), t.177; ac ymhellach Jones, *Cysylltiadau Cymreig*, pennod 6.

Nghymru, felly, ac nid trawsgrifiad o awdl Hywel. Drwy gymwynasgarwch golygiadau modern Rhiannon Ifans, gallwn yn awr weld camddeongliadau'r cyfieithwyr cynnar, Evans a Thomas, a'r modd y rhoddodd Williams gig ar yr esgyrn a gynigiwyd ganddynt hwy i greu cerddi cydnaws â ffasiynau a gweledigaeth wladgarol Pennant a'i gyfnod.

Ochr yn ochr â'r cyfranwyr bonheddig hyn oll, cawn lais annodweddiadol John Smalley yn estyn ei gymorth ymarferol fel mesurydd dŵr ffynnon Gwenffrewi; a chip olwg ar gymorth herodr o gaer, George Wilkinson, a saer Philip Yorke, heb sôn am ficer Gresffordd, wrth i'r bonheddwyr fynd i'r afael ag olion newydd oedd yn dod i'w sylw yn eu hymdrechion i ddehongli'r gorffennol. Un cyfrannwr arall nas trafodwyd yn fanwl yma (ond y gwelir enghreifftiau o'i waith yn y delweddau sy'n cyd-fynd â'r ysgrif hon) oedd arlunydd personol Pennant, Moses Griffith. Ac yntau'n frodor o Ben Llŷn, roedd Griffith wedi ymsefydlu yn sir y Fflint erbyn diwedd y 1770au ac mewn gwasanaeth rhwymedig i Pennant. Ymddangosodd chwech ar hugain o blatiau o ysgythriadau o'i waith yng nghyrol gyntaf y *Teithiau*, a'u testunau'n rhychwantu enghreifftiau o hynafiaethau penodol, cestyll, abatai, plasty, a sbesimenau o fyd natur.¹⁰² Un ymhlith llawer oedd John Lloyd, Caerwys, felly, ond un sy'n ei amlygu ei hun ar sawl achlysur wrth archwilio'r cylchoedd lle gwreiddiwyd prosiect cyffrous Pennant yn ei wlad enedigol. Gwta flwyddyn cyn ymddangosiad y gyfrol sy'n olrhain siwrneiau Pennant yng ngogledd-ddwyrain Cymru o wasg Henry Hughes ar 23 Mawrth 1778, canmolwyd ymdrech Pennant i gofnodi ei daith yn yr Alban gan un darlennydd, mewn geiriau sy'n adlais o fawrygiad mwy adnabyddus Samuel Johnson: 'Mr Pennant appears to possess every Ingredient in his disposition that can be wish'd in a Traveller, curious Observation and indefatigable Industry', meddai Thomas Jones, yn ysgrifennu o Park Street ym mis Ebrill 1777.¹⁰³ Gwyddom o archwilio ei ohebiaeth nad gwaith un dyn oedd canlyniad yr un ymdrech yn achos *Taith* Pennant yng Nghymru, ond cyfanwaith wedi ei ddwyn ynghyd gan awdur a fu'n barod i dderbyn a holi am wybodaeth a rhoi trefn ar amryfal ffynonellau a ddaethai i'w ddwylo oddi wrth lu o gysylltiadau.

102. Gw. n. 21 uchod; Pennant, *A Tour in Wales 1770* [1773], I, t.vi; ac am gydnabyddiaeth Pennant i'w 'was clodwiw' ('worthy servant'), *ibid.*, tt.iv-v.

103. EGw. n. 9, uchod, am ddyddiad y cyhoeddi; Thomas Jones at Thomas Pennant, 9 Ebrill 1777, yn ASSW, CR 2017/TP266/1; a R. E. Jenkins, "'And I travelled after him': Johnson and Pennant in Scotland", *Texas Studies in Literature and Language*, 14, rhif 3 (1972), tt.445-62, yn enwedig t.445.